Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cynllun Archwilio 2015

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Mai 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 264A2015

**Fersiwn ddrafft yw'r ddogfen hon tra bo trafodaethau pellach â'r corff a archwilir ac a arolygir yn yr arfaeth. Mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth wedi'i dilysu'n llawn eto ac ni ddylid ei dosbarthu'n helaeth.**

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol.  Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru -

DRAFT

# Cynnwys


Cynllun Archwilio 2015

| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Archwilio ariannol | 4 |
| Archwilio perfformiad | 7 |
| Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen | 10 |

Atodiadau

| | |
|---|---|
| Cyfrifoldebau perthnasol | 12 |
| Astudiaethau Gwerth am Arian Cenedlaethol | 15 |


DRAFT

# Cynllun Archwilio 2015

## Crynodeb

**1.** Fel eich archwilydd allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol a'm rhwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999, a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:

- archwilio eich datganiadau ariannol ac ardystio a ydynt yn 'gywir a theg';
- asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni eich dyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur; a
- chynnal astudiaethau i'm galluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu ar gyfer gwella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill.

**2.** Diben y cynllun hwn yw nodi'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef, pryd yr ymgymerir ag ef, faint y bydd yn ei gostio a phwy fydd yn ymgymryd ag ef.

**3.** Ni chyfyngwyd arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

**4.** Nodir fy nghyfrifoldebau, ynghyd â chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn Atodiad 1.

## Archwilio ariannol

**5.** Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'cywirdeb a'u tegwch'.


**6.** Rwyf hefyd yn ystyried a yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau ac yn adrodd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion.

**7.** Nodir fy nghyfrifoldebau yn llawn yn Atodiad 1

**8.** Mae'r gwaith archwilio a wneir gennyf er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i fy asesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi i mi ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd ynglŷn â'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'm dull archwilio fel y nodir yn Arddangosyn 1.

DRAFT

### Arddangosyn 1: Fy null archwilio




9. Nodir y risgiau o gamddatganiadau o bwys yr ystyriaf eu bod yn sylweddol ac y mae angen rhoi ystyriaeth archwilio arbennig iddynt o ganlyniad i hynny yn Arddangosyn 2, ynghyd â'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef i ymdrin â hwy.

### Arddangosyn 2: Risgiau archwilio ariannol

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyrir yn risg sylweddol (ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol er mwyn canfod a ydynt yn briodol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu er mwyn canfod unrhyw duedd;<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol. |
| O ystyried yr amgylchedd economaidd presennol, mae pwysau sylweddol ar yr Awdurdod i leihau costau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y blynyddoedd nesaf. Os na cheir gweithdrefnau cadarn ar gyfer cyllidebu a llunio rhagolygon, gallai hynny darfu ar ddarpariaeth gwasanaeth ac atal yr Awdurdod rhag cyflawni ei amcanion. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu'r broses ar gyfer pennu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf a thrafod gyda'r rheolwyr sut y caiff perfformiad yn erbyn y gyllideb ei fonitro; a<br>• adolygu'r perfformiad yn erbyn y gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol a'r amcanestyniadau ar gyfer 2015-16. |
| Mae'n ofynnol i'r Awdurdod lunio Datganiad Llywodraethu i'w gynnwys yn Natganiadau Ariannol 2014-15, sy'n nodi'r trefniadau lefel uchel er mwyn atal a chanfod twyll a llygredd ynghyd â safonau ymddygiad. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag arfer gorau ac yn adlewyrchu trefniadau llywodraethu'r Awdurdod. |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Os nad oes gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny yn fy marn archwilio ar y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn trafod y gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith. |
| Darparwyd Archwilwyr Mewnol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar gyfer 2013-14 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Gallai canlyniadau archwiliadau mewnol yn ystod y flwyddyn ddynodi risgiau o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r adroddiadau a luniwyd gan y swyddogaeth archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ac yn mynd ar drywydd unrhyw feysydd a allai effeithio ar y datganiadau ariannol. |
| **Risgiau'n gysylltiedig â systemau ariannol**<br><br>Er nad yw fy nhîm archwilio wedi canfod unrhyw newidiadau sylweddol i'r systemau ariannol oedd ar waith yn ystod y flwyddyn, gallai unrhyw wendidau yn yr amgylchedd rheoli arwain at gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio, fel bo'n briodol, yn dogfennu ac yn profi'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu (megis cysoni cyfrifon) er mwyn sicrhau bod gwallau sylweddol yn cael eu canfod. |
| **Risgiau'n gysylltiedig â pharatoi'r cyfrifon**<br><br>Mae'r tîm cyllid wedi parhau i weithio gyda'r ddau Awdurdod Tân arall yng Nghymru i lunio templed cyfrifon a ddylai sicrhau mwy o gysondeb yn adroddiadau ariannol 3 Awdurdod Tân Cymru. | Mae fy nhîm archwilio wedi trafod newidiadau cyfrifyddu allweddol gyda'r Awdurdod Tân, a bydd yn adolygu'r templed cyfrifon yn unol â hynny. |
| Fel y blynyddoedd cynt, mae'n rhaid i'r Awdurdod gwblhau pecyn cyfuno er mwyn cefnogi cyfuno cyfrifon adnoddau'r sector cyhoeddus (Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan). | Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio gyda'r tîm cyllid er mwyn sicrhau bod pecynnau archwilio Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn gyflawn, a bod unrhyw ddiweddariadau sydd eu hangen i'r pecyn cyfuno yn sgil ein gwaith archwilio yn cael eu gwneud yn brydlon. |
| **Risgiau'n gysylltiedig â'r datganiadau ariannol**<br><br>Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio ar gyfer cyflogeion mewn lifrai a heb lifrai. Mae'r gwaith cyfrifyddu ar gyfer y cynlluniau hyn yn gymhleth, gan gynyddu'r risg o wall neu hepgoriad yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu trefniadau cyfrifyddu a datgelu'r cynlluniau pensiwn er mwyn sicrhau eu bod yn unol â gofynion perthnasol yr IFRS, ac yn adolygu tybiaethau actwaraidd er mwyn sicrhau eu bod yn unol ag ystodau tybiaeth actwaraidd KPMG.<br><br>Cynnal profion ar y cyfrifon terfynol yn seiliedig ar waith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac adolygu drafft y datganiadau ariannol. |

10. Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch cywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau o bwys, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn gamddatganiadau o bwys eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

11. At ddibenion adroddiadau, byddaf yn cymryd na fydd angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ystyried unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel 'ddibwys' (pump y cant o berthnasedd neu £100,000, pa un bynnag sydd isaf) ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt.

12. Mae fy ffioedd yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:
    - bod yr wybodaeth a roddir i ategu'r datganiadau ariannol yn amserol, o'r ansawdd disgwyliedig a'i bod wedi'i hadolygu at ddibenion sicrwydd ansawdd;
    - bod swyddfeydd a chyfleusterau priodol yn cael eu darparu er mwyn galluogi i'm tîm archwilio gynnal yr archwiliad mewn modd effeithlon;
    - y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
    - bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith gennych i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf; a
    - bod rhaglen waith arfaethedig y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau a bod y rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

13. Yn ogystal â'm cyfrifoldebau o ran archwilio datganiadau ariannol statudol Awdurdod Tân Gogledd Cymru, fel y nodwyd uchod, mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio datganiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am Awdurdod Tân Gogledd Cymru i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

## Archwilio perfformiad

14. Yn ôl y Mesur, mae'n ofynnol i mi gynnal asesiad gwella o bob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn canfod a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'n rhaid i mi hefyd gynnal archwiliadau er mwyn canfod a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur. Mae fy ngwaith asesu gwelliant, ynghyd â'm gwaith ar faterion ariannol, hefyd yn cyflawni fy nghyfrifoldeb i'm bodloni fy hun fod y corff archwiliedig wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

15. Yn ogystal â'm rhaglen waith archwilio ac asesu o dan y Mesur, rwyf yn cynnal rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol, fel sy'n ofynnol o dan adrannau 41 a 42 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Nid yw'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn y ffi archwilio perfformiad lleol. Yn hytrach, mae wedi'i gynnwys yn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru.



DRAFT

16. Yn yr adran hon, nodaf y rhaglen 12 mis o hyd o waith archwilio  perfformiad a gyflawnir yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae cynnwys y rhaglen yn seiliedig ar ystyriaeth o'r risgiau a'r heriau y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu, maint yr wybodaeth archwilio ac arolygu sydd wedi cronni, gan gynnwys gwybodaeth gan gyrff adolygu allanol eraill, yn ogystal â ffynonellau gwybodaeth eraill sydd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau adolygu a gwerthuso'r Awdurdod ei hun.

17. Dangosir elfennau fy ngwaith archwilio perfformiad yn Arddangosyn 4. Cynlluniwyd y rhain er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion lefel uchel a osodwyd yn ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2013-2016 (www.wao.gov.uk/publication/wales-audit-office-corporate-strategy-2013-2016).

Arddangosyn 4: Elfennau o'm gwaith archwilio perfformiad




DRAFT

**18.** Ceir crynodeb o'r gwaith perfformiad yr wyf yn cynnig ymgymryd ag ef yn Arddangosyn 5.

Arddangosyn 5: Cynnwys fy rhaglen waith archwilio perfformiad ar gyfer 2015-16

| | **Prosiectau penodol** |
|---|---|
| **Archwilio ac asesu gwella** | **Archwiliad o'r 'Cynllun Gwella'**<br>Archwiliad o'r gallu i gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella<br>**Archwiliad o'r 'Asesiad o berfformiad'**<br>Archwilio cyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.<br>**Adolygiad o drefniadau rheoli ariannol**<br>Gwaith pellach ar drefniadau rheoli ariannol yn dilyn ein hadolygiad yn 2014-15, ac edrych ymlaen at y cynigion i bennu cyllideb ac arbedion 2016-17. Yn ogystal â hyn, ceir ffocws ar sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn, y polisi ar eu cyfer a'r defnydd ohonynt.<br>**Adolygiad(au) a bennir yn lleol**<br>I'w gadarnhau |
| **Gwaith dilynol** | Byddaf yn cadw ffocws ar asesu'r cynnydd a wnaed wrth weithredu argymhellion o'm gwaith blaenorol. Yn rhan o'r gwaith hwn, byddaf yn gofyn am sicrwydd bod gan yr Awdurdod brosesau corfforaethol priodol er mwyn ymateb i'm hadroddiadau, i olrhain gweithrediad fy argymhellion ac adrodd ar hyn wrth y pwyllgor priodol.<br>Bwriadaf wneud gwaith dilynol penodol yn y meysydd canlynol:<br>• Adolygiad Ansawdd Data ac astudiaeth "Cyflawni gyda llai" wedi'u cwblhau yn 2014-15 |
| **Astudiaethau llywodraeth leol** | Byddaf yn cynnal tair astudiaeth ym mhob Cyngor yng Nghymru, ac rwyf yn ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ynghylch pa **un** o'r rhain fydd yn cael ei chymhwyso i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Dyma'r tair astudiaeth:<br>• dull strategol awdurdodau lleol o gynhyrchu incwm a chodi tâl am wasanaethau;<br>• Cyllid gan Awdurdodau Lleol ar gyfer gwasanaethau trydydd sector; a<br>• effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol lleol. |
| **Arfer da** | Yn unol â'm hymrwymiad i nodi a rhannu arfer da, byddaf yn parhau i gynnal seminarau dysgu ar y cyd, nodi astudiaethau achos perthnasol a chanolbwyntio ar nodi a hyrwyddo arfer effeithiol. |

# Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

## Y Ffi

**19.** Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2015 yn Arddangosyn 6.

Arddangosyn 6: Ffi archwilio

| Maes Archwilio | Ffi Arfaethedig (£)[1] | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| **Gwaith archwilio ariannol**[1] | **34,500** | **34,500** |
| **Gwaith archwilio perfformiad:** | **15,136** | **15,292** |
| **Cyfanswm y ffi** | **49,636** | **49,792** |

**20.** Bydd y broses gynllunio yn barhaus ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen waith archwilio, a'm ffi yn sgil hynny, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf ag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**21.** Ceir rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a'r broses o bennu ffioedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn: http://www.wao.gov.uk/cy/amdanom-ni/graddfeydd-ffioedd-gosod-ffioedd.

## Y Tîm Archwilio

**22.** Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 7.

Arddangosyn 7: Fy nhîm

| Enw | Rôl | Rhif Cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Jane Holownia | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 029 2032 0500 | Jane.holownia@wao.gov.uk |
| Virginia Stevens | Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol | 029 20468000 | Virginia.stevens@kpmg.co.uk |
| Steve Barry | Rheolwr Archwilio Perfformiad | 07786 190210 | Steve.barry@wao.gov.uk |
| Katherine Spooner | Rheolwr Archwilio Ariannol | 0117 905 4228 | Katherine.spooner@kpmg.co.uk |

[1] Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, ac ni chodir TAW arnoch mwyach.



DRAFT

23. Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm oll yn annibynnol ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'ch swyddogion. At hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

## Yr Amserlen

24. Byddaf yn darparu adroddiadau, neu unrhyw gynnyrch arall y cytunir arno, i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n trafod y meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 8.

Arddangosyn 8: Amserlen

| Gwaith a gynllunnir | Cyflawni'r gwaith | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio 2015 | Tachwedd 2014 - Mawrth 2015 | Mai 2015 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol<br>• Memorandwm Cyfrifon Ariannol | Chwefror-Medi 2015 | Medi 2015<br>Medi 2015<br>Hydref 2015 |
| **Gwaith perfformiad:**<br>Archwiliad o'r Cynllun Gwella<br>Archwiliad Asesu Perfformiad<br>Adolygiad o drefniadau rheoli ariannol<br>Astudiaeth leol/astudiaethau lleol | (Amcangyfrif)<br>Mehefin 2015<br>Tachwedd 2015<br>Hyd-Rhag 2015<br>Hyd-Rhag 2015 | (Amcangyfrif)<br>Gorffennaf, 2015<br>Tachwedd 2015<br>Chwefror 2016<br>Chwefror 2016 |
| Adroddiad Gwella Blynyddol | Mehefin i Ragfyr 2015 | Mawrth 2016 |
| Cynllun Archwilio 2016 | Hyd - Rhag 2015 | Ionawr 2016 |

# Atodiad 1

## Cyfrifoldebau perthnasol

### Archwilio ariannol

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- · Eu 'cywirdeb a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:
  - yn rhydd rhag camddatganiadau o bwys pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; a
  - cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno  datgelu cyfrifon.
- Cysondeb yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol â'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir, os na wnaed y datgeliadau gofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth a thrafodion eraill neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi asesu a yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriaf y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- System rheoli mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel yr adroddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac yn fy adroddiad ar y datganiad hwnnw;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystiadau o hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- unrhyw waith arall sy'n mynd i'r afael â materion na chaiff eu cynnwys gan yr uchod, ac yr ystyriaf yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a dogfennau cysylltiedig, i ofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, i herio eitemau yn y cyfrifon.  Rhaid i mi hefyd ystyried a ddylwn lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw wrth i mi gynnal yr archwiliad.

DRAFT

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno i roi'r canlynol i mi:

- mynediad i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad dirwystr at unigolion yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr roi datganiadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi'i gofnodi ac wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod yr wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; ac
- ategu tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os ystyriaf fod hynny'n angenrheidiol neu os yw'n ofynnol o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio.

## Archwilio perfformiad

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Mae hefyd yn gosod gofynion penodol ar awdurdodau i bennu amcanion gwella, ac i gyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau o berfformiad. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Mae'n rhaid i mi hefyd gynnal archwiliadau i nodi pa un a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran gwella, cynllunio ac adrodd.

Er mwyn cyflawni gofynion y Mesur, byddaf yn cynnal asesiadau corfforaethol cyfnodol ym mhob awdurdod gwella. Ers 2013-14, rwyf wedi cynnal y rhaglen hon o asesiadau corfforaethol ar amserlen gylchol. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y caf ddefnyddio'r grant a dderbyniaf gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r asesiad corfforaethol. Mae hyn yn golygu y bydd pob awdurdod yn derbyn asesiad corfforaethol manwl un waith dros gyfnod o bedair blynedd, yn ogystal â gwaith asesu ac archwilio gwelliant a ariennir gan

ffioedd. Yn y blynyddoedd rhwng yr asesiadau hynny, byddaf yn parhau i gadw trosolwg o bell ar ddatblygiadau ac ar gynnydd yr awdurdod.

Os bydd materion sy'n destun pryder neu faterion â blaenoriaeth yn dod i'r amlwg, rwyf yn cadw'r hyblygrwydd i gynnal asesiadau corfforaethol mwy mynych.

Gallaf hefyd, o dan rai amgylchiadau, gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), gan gyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â'r archwiliadau hynny, a chyhoeddi'r adroddiad hwnnw (o dan adran 22) o bosib.  Byddaf yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Yn ogystal â'm rhaglen o waith archwilio ac asesu o dan y Mesur, rwyf yn cynnal rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol, fel sy'n ofynnol o dan adrannau 41 a 42 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Nid yw'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn y ffi archwilio perfformiad lleol. Yn hytrach, mae wedi'i gynnwys yn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru

DRAFT

# Atodiad 2

## Astudiaethau Gwerth am Arian Cenedlaethol

Efallai y bydd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru hefyd ddiddordeb yn yr archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol a gynhelir gennyf, y bydd rhai ohonynt yn arbennig o berthnasol i lywodraeth leol, ac efallai'n cynnwys casglu tystiolaeth ar draws llywodraeth leol. Ariennir yr astudiaethau hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol ac fe'u cyflwynir gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i'w helpu i graffu ar wariant cyhoeddus.

Mae'r tabl isod yn cwmpasu'r holl waith mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian sydd ar y gweill ar hyn o bryd, er bod rhywfaint o'r gwaith hwn yn dal i fod yn gynnar yn ei ddatblygiad. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys crynodebau Cymru gyfan o'r gwaith archwilio a wnaed yn lleol yn y GIG ac archwiliadau ymatebol o feysydd penodol sy'n peri pryder i'r cyhoedd a godwyd â mi. Maes o law, byddaf yn ystyried ac yn ymgynghori ar feysydd pwnc posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol i'w rhoi ar waith, ac o bosibl mewn rhai achosion yn cyflwyno adroddiadau arnynt, yn 2015-16.

Byddwch yn cael adroddiadau diweddaru pellach ar fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian o fewn yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a baratoir gan fy nhîm.

| Pwnc | Amser cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Rhagnodi gan feddygon teulu | Ebrill i Fehefin 2015 |
| Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf | Ebrill i Fehefin 2015 |
| Consortia addysg rhanbarthol | Ebrill i Fehefin 2015 |
| Llywodraeth Cymru yn caffael Maes Awyr Caerdydd | Ebrill i Fehefin 2015 |
| Gwasanaethau rheilffordd | Ebrill i Fehefin 2015 |
| Gwasanaethau Orthopedig | Ebrill i Fehefin 2015 |
| Codio clinigol y GIG | Haf 2015 |
| Rhestrau aros ac ymarfer preifat y GIG | Haf 2015 |
| Darlun o'r gwasanaethau cyhoeddus | Hydref 2015 |
| Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru | Hydref 2015 |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio[2] | I'w gadarnhau |
| Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru[3] | I'w gadarnhau |

[2] Yn ystod y broses glirio, ceir ansicrwydd ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cyhoeddi, a hynny am resymau sy'n ymwneud yn benodol â'r prosiect.

[3] Yn ystod y broses glirio, ceir ansicrwydd ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cyhoeddi, a hynny am resymau sy'n ymwneud yn benodol â'r prosiect.

| Pwnc | Amser cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Rheoli perygl llifogydd ac erydiad (yn debygol o ganolbwyntio ar lifogydd arfordirol) | I'w gadarnhau |
| Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad y cyhoedd[4] | I'w gadarnhau |
| Ymyriadau gan Lywodraeth Cymru mewn llywodraeth leol[5] | I'w gadarnhau |
| Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio | I'w gadarnhau |
| Caffael cyhoeddus a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol | I'w gadarnhau |

DRAFT

[4] Yn y tymor byr, bydd llunio adroddiad darlun o wasanaethau cyhoeddus newydd yn cael blaenoriaeth dros y gwaith hwn. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yr adroddiad darlun o wasanaethau cyhoeddus yn myfyrio ar y themâu hyn mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu gwaith yn y maes hwn yn rhan o'n rhaglen cyfnewid arferion da.

[5] Mae cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn yn cael eu hailystyried yng ngoleuni adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o ymyrraeth Ynys Môn, ac er mwyn ystyried unrhyw oblygiadau ehangach yn sgil y rhaglen diwygio llywodraeth leol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk